3 Chwefror 2015

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyfrifon Llywodraeth Leol 2013-14

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys John Herniman a Jeremy Saunders.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost info@wao.gov.uk

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Roedd cyrff archwiliedig yn gyffredinol yn paratoi cyfrifon a phapurau gwaith ategol yn brydlon a, chyda dim ond dau eithriad, llwyddwyd i gyhoeddi barn archwilio ddiamod erbyn 30 Medi ond roedd angen gwneud addasiadau perthnasol i fwy o'r cyfrifon nag o'r blaen 6

Roedd papurau gwaith i ategu cyfrifon yn gyffredinol o safon dda; fodd bynnag, mae safon papurau gwaith sawl corff wedi dirywio 6

Cynyddodd nifer y cyfrifon yr oedd angen gwneud diwygiadau perthnasol iddynt eleni 7

Cyhoeddwyd barn ddiamod ym mhob achos ond un na chyflwynwyd barn ar ei gyfer o hyd ac roedd un farn yn cynnwys paragraff 'pwysleisio mater' 11

Nid ydym wedi ardystio bod rhai archwiliadau wedi'u cwblhau eto gan fod materion heb eu datrys mewn perthynas â chwestiynau gan etholwyr 12

Ni fu unrhyw welliant amlwg o ran amseroldeb paratoi ffurflenni drafft Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan er i ddwy ran o dair o'r ffurflenni archwiliedig gael eu cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol 13

Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer 2014-15 a thu hwnt yn awgrymu cyfnod o galedi parhaus a fydd yn herio trefniadau rheoli ariannol cyrff archwiliedig ymhellach 15

# Adroddiad cryno

1 Mae cyrff llywodraeth leol (cyrff archwiliedig) yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau, ac wrth wneud hynny, yn gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus. Fel pob corff cyhoeddus, mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu cyfres o ddatganiadau ariannol blynyddol (cyfrifon) i ddangos a chyflwyno adroddiad ar y modd y maent yn gwarchod yr arian cyhoeddus a roddwyd iddynt, a sicrhau bod y datganiadau hynny'n cael eu harchwilio.

2 Mae llunio cyfrifon cywir ac amserol yn dasg sylweddol ond mae angen gwneud hynny er mwyn dangos atebolrwydd am warchod a llywodraethu'r arian cyhoeddus y mae'r sefydliad yn gyfrifol am ei reoli. Gall unrhyw fethiant i gyhoeddi cyfrifon cywir ac archwiliedig erbyn y terfynau amser rhagnodedig adlewyrchu'n wael ar y sefydliad, gan danseilio ei drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu corfforaethol, yn ogystal â hyder cyffredinol yn y sefydliad.

3 Rwyf yn penodi archwilwyr i bob corff llywodraeth leol yng Nghymru i archwilio'u cyfrifon a rhoi barn arnynt. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilwyr a benodir archwilio ac ardystio'r cyfrifon, a bodloni eu hunain bod y cyfrifon:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cyrff archwiliedig;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol;
- wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.

4 Mae fy mhedwerydd adroddiad blynyddol ar gyfrifon cyrff llywodraeth leol yn crynhoi canlyniadau gwaith yr archwilwyr ar gyfer 2013-14 yn y mathau canlynol o gyrff archwiliedig yng Nghymru:

| Cyrff archwiliedig | Nifer |
|---|---:|
| Awdurdodau unedol | 22 |
| Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol | 8 |
| Comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid | 8 |
| Awdurdodau tân ac achub | 3 |
| Awdurdodau parciau cenedlaethol | 3 |
| Cyd-bwyllgorau | 17 |

5 Roedd ansawdd cyfrifon a phapurau gwaith ategol y rhan fwyaf o gyrff yn debyg i 2012-13, er bod safonau wedi dirywio mewn nifer o achosion a bod angen gwelliannau mewn rhai meysydd penodol o'r cyfrifon o hyd.

6 Nododd yr archwiliadau o'r rhan fwyaf o'r cyfrifon fod angen gwneud nifer o ddiwygiadau ond, yr hyn sy'n peri mwy o bryder, yw'r cynnydd unwaith eto eleni yn nifer y cyrff lle y bu'n rhaid diwygio'r cyfrifon mewn perthynas ag eitemau perthnasol. Roedd y meysydd lle roedd angen y rhan fwyaf o addasiadau yn ymwneud â chyfrifyddu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar (asedau anghyfredol) a chyfrif taliadau mewnol ddwywaith o fewn incwm gros a gwariant gros, sef maes newydd a ddaeth i'r amlwg eleni.

7 Mae angen i awdurdodau roi mwy o sylw i feysydd cyfrifyddu cymhleth a sicrhau y cynhelir adolygiad sicrhau ansawdd trylwyr cyn y caiff y cyfrifon eu hardystio gan Swyddogion Ariannol Cyfrifol.

8 Yn y dyfodol, gallai'r diffygion o fewn trefniadau rhai cyrff ar gyfer paratoi cyfrifon drafft cywir a phapurau gwaith ategol amserol effeithio ar eu gallu i gau eu cyfrifon yn gynharach.

9 Er mwyn llunio set o gyfrifon erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin, mae angen trefniadau rheoli prosiect a chydgysylltu effeithiol ar draws nifer o adrannau a gwasanaethau. Ar gyfer 2013-14, ardystiwyd yr holl gyfrifon ond un gan Swyddogion Ariannol Cyfrifol erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, llwyddwyd i gyflwyno barn ddiamod cyn y dyddiad terfyn o 30 Medi ar gyfer pob awdurdod ond dau. Roedd un wythnos yn hwyr o ganlyniad i oedi tra'n aros am gymeradwyaeth y cyngor ac ni chyflwynwyd barn ar y llall eto oherwydd mater a godwyd gan etholwr.

10 Roedd barn archwilio un corff yn cynnwys paragraff 'pwysleisio mater' lle mae'r archwilydd yn tynnu sylw'r darllenydd at faterion penodol y cyflwynwyd adroddiad arnynt fel rhan o'r cyfrifon. Ni chyflwynwyd barn ar un arall o hyd ond disgwylir y bydd hefyd yn cynnwys paragraff 'pwysleisio mater'.

11 Ni fu unrhyw welliant amlwg o ran amseroldeb paratoi ffurflenni drafft Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, sy'n wael o hyd a dim ond dwy ran o dair o'r ffurflenni archwiliedig a gwblhawyd o fewn y terfyn amser. Bydd angen gwelliannau o ran amseroldeb wrth i Drysorlys EM geisio cyflwyno terfynau amser cynt yn y dyfodol.

12 Bydd y rhagolygon ariannol ar gyfer 2014-15 a thu hwnt yn darparu her sylweddol i gyrff yn y sector cyhoeddus. Bydd angen i gyrff llywodraeth leol a'r heddlu ddatblygu cynlluniau ariannol tymor canolig cadarn, wedi'u hategu gan gynlluniau i ddiwygio sut y caiff gwasanaethau eu darparu sy'n eu galluogi i ymateb i'r her hon. Fel rhan o hyn, bydd angen i gyrff barhau i gynnal arfarniadau beirniadol o'r cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt a lle y gallant wneud hynny, gynnwys y defnydd a wneir ohonynt yn eu cynlluniau ariannol tymor canolig mewn ffordd gynaliadwy. Yn ddiweddarach eleni, byddaf yn cyhoeddi adroddiad arall ar sut mae llywodraeth leol yng Nghymru yn ymateb i'r heriau ariannol a wynebir ganddi.

# Adroddiad manwl

## Roedd cyrff archwiliedig yn gyffredinol yn paratoi cyfrifon a phapurau gwaith ategol yn brydlon a, chyda dim ond dau eithriad, llwyddwyd i gyhoeddi barn archwilio ddiamod erbyn 30 Medi ond roedd angen gwneud addasiadau perthnasol i fwy o'r cyfrifon nag o'r blaen

13 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Ariannol Cyfrifol cyrff archwiliedig baratoi ac ardystio cyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar 31 Mawrth ac incwm a gwariant y corff am y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff archwiliedig gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon yn ffurfiol erbyn 30 Medi. Os methir y terfynau amser ym mis Mehefin neu fis Medi, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff archwiliedig gyhoeddi datganiad (h.y. sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd) sy'n egluro pam ei fod wedi methu â pharatoi ac ardystio'r cyfrifon a rhoi manylion y camau gweithredu (gan gynnwys amserlenni) sy'n cael eu cymryd i baratoi ac ardystio'r cyfrifon.

14 Mae paratoi'r cyfrifon drafft yn broses gymhleth sy'n gofyn am drefniadau rheoli prosiect cadarn felly mae llwyddo i'w cwblhau erbyn 30 Mehefin yn gyflawniad. Gydag un eithriad, llwyddodd pob awdurdod i baratoi ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin yn unol â'r Rheoliadau. Ardystiodd yr eithriad y cyfrifon ar 7 Gorffennaf.

15 Ar 30 Mehefin neu oddeutu'r dyddiad hwnnw, mewn cytundeb â'r cyrff archwiliedig, mae'r archwilwyr a benodwyd yn derbyn cyfrifon a phapurau gwaith ategol i'w galluogi i gyflawni eu gwaith archwilio. Mae'r archwilwyr yn cwblhau eu gwaith mewn da bryd fel bod y cyfrifon yn cael eu hailardystio gan Swyddogion Ariannol Cyfrifol, eu cymeradwyo gan gyrff archwiliedig a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi.

### Roedd papurau gwaith i ategu cyfrifon yn gyffredinol o safon dda; fodd bynnag, mae safonau papurau gwaith sawl corff wedi dirywio

16 Er mwyn ategu'r cofnodion yn y cyfrifon, ac i sicrhau proses archwilio ddidrafferth, dylai'r cyrff archwiliedig ddarparu papurau gwaith amserol, cynhwysfawr a chyflawn i ategu eu cyfrifon. Mae'n bwysig bod archwilwyr a chyrff archwiliedig yn cytuno ar y gofynion o ran papurau gwaith a gofynion archwilio eraill ymlaen llaw er mwyn hwyluso'r broses o gwblhau'r gwaith archwilio ar amser.

17 Mae cyrff archwiliedig ac archwilwyr wedi parhau i weithio'n galed i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a ddisgwylir, beth sy'n gweithio'n lleol ac i barhau i symleiddio trefniadau yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol. Lle mae'r broses yn gweithio'n dda, ceir trafodaeth barhaus ac agored; maent yn trafod materion sy'n codi cyn ymgymryd â phroses y cyfrifon a thrwy gydol y broses honno. Dengys profiad mai un o'r dulliau mwyaf gwerthfawr o hyd ar gyfer gwella trefniadau yw sesiwn ddysgu ar y cyd yn dilyn cwblhau prosiect lle y caiff archwilwyr a rheolwyr gyfle i rannu eu safbwyntiau mewn ffordd agored am y broses o lunio'r cyfrifon a'u harchwilio ar ôl cwblhau'r broses honno. Mae sesiynau o'r fath wedi galluogi archwilwyr a rheolwyr i rannu profiadau a safbwyntiau am yr hyn a aeth yn dda a'r hyn nad aeth cystal ac wedi helpu i nodi gwelliannau ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

18 Fodd bynnag, mewn nifer o gyrff archwiliedig, nododd yr archwilwyr fod rhai agweddau, neu bob agwedd, ar ansawdd, amseroldeb a chywirdeb y papurau gwaith ategol ar gyfer y cyfrifon wedi dirywio. Mae angen i'r cyrff hyn ymdrin â'r gwendidau a nodwyd gan eu harchwilwyr a gweithio gyda hwy i oresgyn problemau ar gyfer y dyfodol. Mae papurau gwaith gwael neu o safon wael yn rhoi mwy o bwysau ar dimau cyllid cyrff archwiliedig ac archwilwyr ac yn cynyddu'r risg na chaiff y cyfrifon eu cwblhau erbyn y terfyn amser statudol.

19 Lle mae'r trefniadau ar gyfer llunio papurau gwaith cywir ac amserol yn wael, mae'n bosibl na fydd y cyrff hyn mewn sefyllfa dda i gyflawni unrhyw ofynion i gau'r cyfrifon yn gynt yn y dyfodol.

20 Rydym wedi datblygu canllaw arfer da i helpu cyrff cyhoeddus i gynllunio ar gyfer cau eu cyfrifon yn gynt ac i gyflawni hynny[1]. Mae'n cynnwys canllawiau ac astudiaethau achos ar newid diwylliant, cynllunio, arferion gwaith yn ystod y flwyddyn, a chau a chyflwyno adroddiadau.

## Cynyddodd nifer y cyfrifon yr oedd angen gwneud diwygiadau perthnasol iddynt unwaith eto eleni

21 Wrth archwilio'r cyfrifon, nid yw archwilwyr yn rhoi sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond maent yn mabwysiadu'r cysyniad o 'berthnasedd'. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, mae archwilwyr yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall yn y cyfrifon. Mae gwybodaeth yn berthnasol os gallai ei hepgor neu ei cham-ddatgan ddylanwadu ar ddarllenydd y cyfrifon gan beri iddo ddod i gasgliad anghywir am y corff neu ei ddatganiadau ariannol. Mae perthnasedd yn dibynnu ar faint yr eitem neu'r gwall o'i hystyried yn unol ag amgylchiadau penodol ei hepgor neu ei chamddatgan. Felly, gellid ystyried bod swm cymharol fach yn berthnasol pe gallai gamarwain neu ddylanwadu ar ddefnyddiwr y cyfrifon ee, gwall yng nghyflog datganedig uwch swyddog.

22 Mae penderfyniad yr archwilydd ynghylch perthnasedd yn fater o farn broffesiynol ac mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y penderfyniad gan gynnwys:

- y math o gorff a archwilir;
- natur y gwasanaethau a ddarperir gan y corff;
- gofynion deddfwriaethol; a'r
- wybodaeth ariannol sydd ei hangen ar ddeddfwyr ac unigolion eraill sy'n defnyddio'r cyfrifon.

23 Roedd y swm lle yr ystyriwyd bod camddatganiad yn berthnasol os oedd uwchlaw'r swm penodol hwnnw yn amrywio o £6,000 mewn cyrff archwiliedig llai o faint, megis cydbwyllgor, i £20 miliwn mewn cyrff archwiliedig mawr, megis cronfa bensiwn. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio. Drwy eu gwaith, gall archwilwyr nodi camddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon corff archwiliedig. Os digwydd hyn, bydd yr archwilydd yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro'r gwallau. Os na

1 www.wao.gov.uk/cy/arfer-da

chaiff y camddatganiadau perthnasol eu cywiro, neu os nad yw'n bosibl newid y camddatganiadau hynny am nad oes digon o wybodaeth ar gael, gall yr archwilydd ystyried rhoi barn addasedig (h.y. amodol).

24 Caiff camddatganiadau eraill amherthnasol, ond sylweddol serch hynny, eu dwyn at sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol hefyd. Mae'r archwilwyr yn gofyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro gwallau o'r fath. Pan gaiff gwallau a chamddatganiadau sylweddol eraill o'r fath eu dwyn at sylw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ond na chânt eu haddasu, bydd yr archwilwyr yn tynnu sylw'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu (cyngor neu ei bwyllgor archwilio, fel arfer) at hynny. Bydd yr archwilwyr yn gofyn am esboniad ynghylch pam nad yw'r addasiadau wedi'u gwneud cyn iddynt gymeradwyo'r cyfrifon.

25 Yn 2013-14, gwnaeth 32 o'r 61 (52 y cant) o gyrff a gwmpesir gan yr adroddiad addasiadau perthnasol i'w cyfrifon ar ôl archwiliad, a oedd yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 18 allan o 55 (33 y cant).

26 Er bod mân wallau yn aml yn debygol o ddigwydd yn y cyfrifon a gaiff eu cyflwyno i'w harchwilio, dylai eitemau perthnasol fod yn llai cyffredin o lawer. Wrth lofnodi'r cyfrifon cyn yr archwiliad, mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio eu bod yn berthnasol gywir. Mae nifer mor fawr o wallau perthnasol yn tanseilio'r broses ardystio ac yn bwrw amheuon ar ansawdd y broses o lunio'r cyfrifon.

27 Dylai prosesau da ar gyfer llunio cyfrifon ynghyd â threfniadau sicrhau ansawdd ac adolygu mewnol cadarn allu nodi gwallau perthnasol cyn i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio bod y cyfrifon yn berthnasol gywir. Dylai cyrff lle y gwneir diwygiadau perthnasol adolygu eu trefniadau ar gyfer llunio'r cyfrifon a'u trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau y gallant nodi gwallau o'r fath cyn ardystio'r cyfrifon a'u trosglwyddo i'w harchwilio.

28 Isod, ceir crynodeb o'r prif feysydd lle y nodwyd camddatganiadau, perthnasol ac amherthnasol, o waith archwilio yn 2013-14.

### Eiddo, offer a chyfarpar

29 Erys eiddo, offer a chyfarpar yn faes lle mae nifer sylweddol o gyrff archwiliedig yn cael anhawster cymhwyso'r driniaeth gyfrifyddu yn gywir. Cododd rhai o'r problemau cyffredinol y daethpwyd ar eu traws mewn blynyddoedd blaenorol eto, gan gynnwys:

- methiant i roi cyfrif am eiddo a ail-brisiwyd yn gywir neu ailbrisio eiddo gan ddefnyddio'r sail anghywir (priodolwyd hyn yn aml i gyfathrebu gwael rhwng adrannau cyllid ac adrannau ystadau);
- nid oedd modd cysoni cofrestrau asedau yn llawn â chofnodion cyfrifyddu, gyda rhai problemau cyffredin, megis rhai asedau yn cael eu cyfrif ddwywaith ac eraill yn cael eu hepgor o'r cyfrifon; a
- materion cyffredinol o ran cyfrifyddu'n gywir am ddibrisiant, cydnabod a rhoi cyfrif am ddiffygion, trin a datgelu gwariant nad yw'n ychwanegu gwerth a dosbarthu asedau.

30 Yn fy adroddiadau blaenorol ar *Gyfrifon Awdurdodau Lleol*, nodais fod diffyg eglurder o ran cydnabod adeiladau ysgolion sylfaen, ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol fel asedau anghyfredol ar fantolenni cyrff archwiliedig. Gan nad oes canllawiau pendant o hyd, mae cyrff archwiliedig unwaith eto yn 2013-14 wedi mabwysiadu dulliau anghyson o ran eu triniaeth gyfrifyddu mewn perthynas â'r ysgolion hyn, gyda rhai cyrff archwiliedig yn eu cydnabod ar fantolenni ac eraill yn penderfynu peidio â gwneud hynny. Mae CIPFA/LASAAC wedi dod i gasgliad ar y dull cyfrifyddu priodol ar gyfer yr asedau hyn ac mae Cod Ymarfer 2014-15 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn nodi manylion y materion y dylai awdurdodau lleol eu hystyried. Mae *Bwletin 101 LAAP: Accounting for Non-Current Assets Used by Local Authority Maintained Schools,* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014, yn nodi canllawiau pellach ar y materion hyn ac yn dod i'r casgliad na ddylid cydnabod yr asedau hyn ar fantolenni awdurdodau lleol. Mae angen i gyrff archwiliedig adolygu'r ffordd y byddant yn trin yr asedau hyn yn 2014-15.

31 Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i anheddau cyngor gael eu prisio gan ddefnyddio Gwerth Defnydd Presennol - Tai Cymdeithasol (EUV-SH). Dyma'r swm amcangyfrifedig a ddylai gael ei godi pan fydd eiddo yn newid dwylo rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn trafodyn hyd braich ar y dyddiad prisio. Yn fy adroddiadau blaenorol ar gyfrifon llywodraeth leol, tynnais sylw at y ffaith bod y maes hwn yn faes lle y mae gwallau cyfrifyddu yn aml yn digwydd a bod amrywiadau a gwallau o ran dulliau prisio fel petaent yn arwain at brisiadau gwahanol iawn. Byddai mwy o gysondeb mewn perthynas â'r mater hwn o fudd o hyd ac rydym yn parhau i'w drafod gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a chyrff archwiliedig.

### Darpariaethau a chyflog cyfartal

32 Mae'n ofynnol i gyrff archwiliedig ystyried a all digwyddiadau cyn diwedd y flwyddyn arwain at rwymedigaeth yn y dyfodol. Os yw'n fwy tebygol na pheidio y bydd rhwymedigaeth yn crisialu ac y gellir ei hamcangyfrif mewn ffordd ddibynadwy, yna bydd angen darpariaeth ariannol mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw.

33 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd nifer o gyrff archwiliedig wedi sefydlu darpariaethau yn amhriodol ac roedd eraill wedi methu â sefydlu darpariaethau pan oedd angen gwneud hynny.

34 Roedd y maes lle y cododd y rhan fwyaf o broblemau o ran darpariaethau yn ymwneud â chyfrifyddu ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyrff llywodraeth leol wedi gwneud cynnydd o ran setlo'r hawliadau hyn, neu wedi cytuno ar sail ar gyfer eu setlo. Nid oedd y cyfrifon bob amser yn cynrychioli'r sefyllfaoedd hynny yn gywir gyda symiau yn cael eu dangos fel rhwymedigaethau wrth gefn yn hytrach na darpariaethau ac i'r gwrthwyneb. Nodais yn flaenorol fod amrywiol ddehongliadau o ran p'un a yw taliadau o'r fath yn bensiynadwy ai peidio ac mae'r diffyg eglurder hwn hefyd wedi dylanwadu ar swm y darpariaethau, a'r driniaeth gyfrifyddu ar eu cyfer. Mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y taliadau hyn yn bensiynadwy. Flwyddyn nesaf, bydd cyrff archwiliedig yn ddiau yn ymdrin â'r mater hwn ymhellach a bydd angen iddynt sicrhau y caiff y sefyllfa ddiweddaraf ei hystyried wrth lunio eu cyfrifon.

## Ailgodi taliadau incwm a gwariant yn fewnol

35 Mater a ddaeth i'r amlwg eleni mewn nifer o gyrff oedd y ffaith nad oedd taliadau a ailgodwyd yn fewnol yn cael eu dileu o wariant gros ac incwm gros. Roedd sawl corff archwiliedig wedi gorddatgan eu hincwm gros a'u gwariant gros yn sylweddol am nad oedd eitemau o'r fath wedi'u dangos yn glir er mwyn dangos yr incwm a'r gwariant allanol gwirioneddol. Er bod y gwariant net wedi'i ddatgan yn deg, roedd angen gwneud diwygiadau perthnasol i'r incwm gros a'r gwariant gros a llawer o'r nodiadau ategol i'r cyfrifon.

36 Roedd y prif feysydd lle y cafwyd gwallau yn ymwneud ag achosion o beidio â dileu trafodion masnachu mewnol rhwng gwasanaethau amrywiol a dangos taliadau grant i ysgolion yn anghywir fel eitemau o wariant.

37 Mae angen i gyrff sicrhau bod trefniadau ar waith ganddynt i ddileu taliadau mewnol a ailgodir a gweithgareddau masnachu o'r incwm gros a'r gwariant gros a gofnodir.

## Materion sy'n gysylltiedig â chronfeydd pensiwn

38 Diwygiwyd datgeliadau pensiwn sawl corff archwiliedig oherwydd problemau cysoni rhwng y data aelodaeth a ddelir gan y gronfa bensiwn ac a drosglwyddwyd i'r actiwari a'r data aelodaeth a ddelir gan y corff archwiliedig.

39 Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (Buddiannau Cyflogeion) (IAS 19) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff ddatgelu yn eu cyfrifon yr asedau, y rhwymedigaethau a'r trafodion, ynghyd â rhywfaint o wybodaeth benodol am ragdybiaethau sylfaenol, mewn perthynas â buddiannau ymddeol.

40 Mae'r actiwari yn paratoi prisiad ariannu bob tair blynedd a phrisiad blynyddol o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn, ar sail IAS 19, sy'n darparu datgeliadau refeniw a mantolen i'w cynnwys yn y datganiadau ariannol. Caiff y rhain eu paratoi gan ddefnyddio amrywiaeth o ddata, a ddarperir gan awdurdodau gweinyddu'r gronfa bensiwn.

41 Felly, mae'n hanfodol bod cofnodion aelodaeth yr awdurdod gweinyddu yn gyfredol a'u bod yn cofnodi data ar gyfer cofnodion gweithredol, cofnodion gohiriedig a chofnodion pensiynwyr yn gywir. Mae angen i'r cyflogwr (cyrff derbyniedig) a'r awdurdodau gweinyddu gydweithio er mwyn sicrhau bod cofnodion aelodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Yn ogystal â'r goblygiadau o ran datgeliadau IAS 19 yn y datganiadau ariannol ar gyfer cyrff derbyniedig a chyrff gweinyddu, mae hyn yn berthnasol i aelodau unigol y gronfa bensiwn hefyd.

42 Nododd yr archwilwyr hefyd faterion eraill mewn perthynas â chyfrifon cronfeydd pensiwn eleni, a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- triniaeth gywir ar gyfer ariannu diffygion a swmp drosglwyddiadau; a'r
- ffaith nad oedd y gwasanaeth archwilio mewnol yn rhoi llawer o sylw, os o gwbl, i'r gronfa bensiwn.

43 Mae angen i swyddogion Adran 151 fodloni eu hunain fod eu swyddogaeth archwilio mewnol yn rhoi digon o sylw i weithgareddau'r gronfa bensiwn i roi sicrwydd o ran y symiau sylweddol dan sylw. Dylai'r cyrff gweinyddu hefyd sicrhau bod eu datganiad llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu, y problemau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gronfa bensiwn ac yn cyflwyno sylwadau arnynt.

## Cyhoeddwyd barn ddiamod ym mhob achos ond un na chyflwynwyd barn ar ei gyfer o hyd ac roedd un farn yn cynnwys paragraff 'pwysleisio mater

44 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr roi barn ar y cyfrifon ar ôl iddynt gwblhau'r archwiliad. Mae archwilwyr yn anelu at roi eu barn ar y cyfrifon erbyn 30 Medi, er mwyn galluogi cyrff i gyhoeddi cyfrifon archwiliedig erbyn y terfyn amser statudol. Eleni, fel mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd cyfrifon y mwyafrif helaeth o gyrff archwiliedig eu cymeradwyo a rhoddwyd barn archwilio ddiamod arnynt erbyn y dyddiad terfyn o 30 Medi.

45 Lle y gall yr archwilydd ddod i'r casgliad fod cyfrifon corff yn berthnasol gywir ond ei fod, serch hynny, yn awyddus i dynnu sylw'r darllenydd at eitem a ddatgelwyd ynddynt, mae'n bosibl ychwanegu paragraff 'pwysleisio mater' at yr adroddiad archwilio er mwyn egluro'r mater i'r darllenydd. Er mai barn archwilio ansafonol yw hon, mae'r farn ei hun yn ddiamod o hyd.

46 Ar gyfer 2013-14, rhoddwyd barn ansafonol yn achos un corff. Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig ddau adroddiad er budd y cyhoedd ar Gyngor Sir Caerfyrddin. Nododd yr adroddiadau hyn wariant anghyfreithlon mewn perthynas â thâl ychwanegol i uwch swyddogion ac indemnedd a ddyfarnwyd i'r Prif Weithredwr ar gyfer gwrth-hawliad enllib. Datgelwyd y sefyllfa hon yng nghyfrifon y cyngor ar gyfer 2013-14 a thynnwyd sylw darllenydd y cyfrifon ati mewn paragraff 'pwysleisio mater' yn adroddiad yr archwilydd ar y cyfrifon.

47 Ni chyhoeddwyd barn archwilio eto mewn perthynas ag un corff archwiliedig, Cyngor Sir Penfro, gan fod mater perthnasol y bydd angen rhoi sylw iddo, o bosibl, mewn perthynas â chwestiwn gan etholwr y mae angen ei ddatrys. Pan gaiff y farn archwilio hon ei chyflwyno, disgwylir iddi hefyd gynnwys paragraff 'pwysleisio mater' yn tynnu sylw at wariant anghyfreithlon yn deillio o 'dâl ychwanegol' i uwch swyddogion. Cyhoeddwyd adroddiad er budd y cyhoedd ym mis Ionawr 2014 a oedd yn cyfeirio at y mater hwn. Yn dilyn hyn, cynigiodd y cyngor dâl diswyddo i'r Prif Weithredwr gan gynnwys eitemau gwariant a fyddai wedi bod yn anghyfreithlon. Cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig hysbysiad cynghori i'r cyngor ym mis Hydref 2014 er mwyn atal gwariant anghyfreithlon o'r fath. O ganlyniad, gwnaed setliad a ddiddymodd y taliadau a fyddai wedi bod yn anghyfreithlon (gan leihau'r setliad £52,760).

## Nid ydym wedi ardystio bod rhai archwiliadau wedi'u cwblhau eto gan fod materion heb eu datrys mewn perthynas â chwestiynau gan etholwyr

48 Ar ôl cwblhau'r gwaith papur mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn benodol, rhaid i'r Archwilydd Penodedig ardystio bod yr archwiliad hwnnw wedi'i gwblhau. Cyn rhoi'r farn a chwblhau'r archwiliad, mae nifer o faterion y mae angen i archwilwyr eu hystyried:

- pa un a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd neu gymryd unrhyw gamau archwilio ffurfiol eraill; a
- ph'un a ymdriniwyd â phob cwestiwn a/neu wrthwynebiad gan etholwyr yn foddhaol.

49 Lle bydd materion yn parhau heb eu datrys, gall yr archwilydd roi barn o hyd ar y datganiadau ariannol pan na chaiff y materion unrhyw effaith berthnasol ar y cyfrifon. Unwaith y caiff y materion eu datrys, gall yr archwilydd ailgyflwyno'r farn ac ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau.

50 Ar gyfer chwe chorff archwiliedig (gan gynnwys dwy gronfa bensiwn gan fod yr archwiliad yn ymwneud â'r awdurdod gweinyddu), ni roddwyd y dystysgrif a ddaeth i'r archwiliad i ben ar yr adeg y rhoddwyd y farn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd materion a oedd yn ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr nad oedd wedi'u datrys. Mae faint o gwestiynau y mae cynghorau yn eu cael gan etholwyr yn amrywio rhwng cynghorau gyda rhai ohonynt yn cael nifer sylweddol. Er bod y dystysgrif yn parhau ar agor o'u herwydd, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd angen unrhyw gamau archwilio ffurfiol yn y pen draw, gan na fydd o bosibl unrhyw arwyddocâd i'r materion a godwyd. Fodd bynnag, hyd nes y caiff y materion eu hystyried yn llawn, ni ellir ardystio bod yr archwiliadau wedi'u cwblhau.

## Ni fu unrhyw welliant nodedig o ran amseroldeb paratoi ffurflenni drafft Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan er y llwyddwyd i gwblhau dwy ran o dair o'r ffurflenni archwiliedig erbyn y dyddiad gofynnol

51 Mae Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn gyfres o ddatganiadau ariannol cyfunol masnachol ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU. Trysorlys EM sy'n paratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, gan gyfuno cyfrifon tua 1,400 o gyrff i greu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y DU.

52 Trysorlys EM sy'n penderfynu pa gyrff a gaiff eu cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan bob blwyddyn. Mae hefyd yn dynodi swyddog cyfuno ar gyfer pob corff. Mae'r swyddog yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn darparu ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn amserol a sicrhau bod y ffurflen yn cael ei hategu gan systemau digonol a barn gyfrifyddu briodol. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i awdurdodau unedol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, awdurdodau tân ac achub a dau barc cenedlaethol (er nad oes angen archwilio'r olaf).

53 Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw archwilydd statudol Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Caiff gwaith y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ei ategu gan y gwaith a wneir gan archwilwyr y cyrff unigol sy'n cael eu cynnwys yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

54 Roedd y terfynau amser a bennwyd gan Drysorlys EM ar gyfer proses Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn 2013-14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffurflenni drafft gael eu cyflwyno erbyn 30 Mehefin 2014. Llwyddodd Llywodraeth Cymru i negodi estyniad i'r terfyn amser hwn, hyd at 11 Gorffennaf 2014, er mwyn lliniaru'r pwysau amser a oedd ar gyrff awdurdodau lleol. Roedd y terfynau amser ar gyfer cyrff awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer 2013-14 fel a ganlyn:

- darparu ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan cychwynnol i Lywodraeth Cymru a thimau archwilio lleol erbyn 11 Gorffennaf; a
- darparu ffurflenni archwiliedig a therfynol Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Medi.

55 Llwyddodd dau awdurdod i gyflawni terfyn amser Trysorlys EM ar gyfer cwblhau ffurflenni drafft Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, sef 30 Mehefin; llwyddodd 18 o gyrff eraill i gyflawni'r terfyn amser o 11 Gorffennaf. O'r 11 corff sy'n weddill:

- cytunodd chwech ar derfynau amser estynedig gyda Llywodraeth Cymru, er na chyflawnodd hanner y cyrff hyn y dyddiadau diweddarach; ac
- ni negododd pump ohonynt unrhyw estyniad pellach, ac o'u plith, ni chafwyd y ddwy ffurflen olaf tan bron diwedd mis Awst 2014.

56 Er gwaethaf y nifer uchel o estyniadau gofynnol ac achosion cyffredinol o oedi wrth baratoi'r ffurflenni cychwynnol, cyflwynwyd y rhan fwyaf (62 y cant) o'r ffurflenni archwiliedig terfynol yn brydlon. Ac eithrio dwy, derbyniwyd yr holl ffurflenni archwiliedig eraill o fewn wythnos i'r terfyn amser. Ni roddwyd barn amodol ar unrhyw un o'r ffurflenni.

57 Yn gyffredinol, nid yw amseroldeb y broses o baratoi ffurflenni drafft Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan wedi gwella o gymharu â'r llynedd. Bydd cyrff awdurdodau lleol yn ei chael hi'n gynyddol heriol bodloni'r terfynau amser ar gyfer Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan gan fod Trysorlys EM yn ymrwymedig i bennu dyddiadau cyhoeddi cynharach ar eu cyfer.


## Mae’r rhagolygon ariannol ar gyfer 2014-15 a thu hwnt yn awgrymu cyfnod o galedi parhaus a fydd yn herio trefniadau rheoli ariannol cyrff archwiliedig ymhellach

58 Mae cyrff llywodraeth leol, fel gweddill y sector cyhoeddus, yn wynebu cyfnod o ansicrwydd a chyfangu ariannol. Rhwng 2010-11 a 2014-15, mae llywodraeth leol wedi wynebu gostyngiad o tua 4 y cant mewn termau real yn y refeniw a gaiff gan Lywodraeth Cymru. Mae’r sefyllfa ar gyfer 2015-16 yn parhau i fod yn heriol gyda’r setliad refeniw yn dangos gostyngiad o 3.4 y cant (£145 miliwn) o gymharu â 2014-15. Mae’r gostyngiad hwn yn cynrychioli’r cyfartaledd ar draws pob awdurdod ac mae’r gostyngiadau unigol yn amrywio o 2.4 y cant i 4.5 y cant. Ochr yn ochr â’r gostyngiadau ariannol, mae gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru yn parhau i wynebu galwadau a phwysau cost sylweddol. Mae’r cyfuniad hwn yn darparu her sylweddol a bydd angen i gynghorau sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol a chynlluniau ariannol tymor canolig effeithiol ar waith ganddynt sy’n gysylltiedig â chynlluniau cadarn ar gyfer trawsnewid gwasanaethau ac wedi’u hategu gan y cynlluniau hynny.

59 Mae mantolenni awdurdodau lleol yn cynnwys symiau sydd wedi’u neilltuo mewn cronfeydd wrth gefn. Mae’r gallu i ddal cronfeydd wrth gefn yn elfen bwysig o’u trefniadau rheoli ariannol a’u cynlluniau ariannol tymor hwy. Mae’n ofynnol i gyrff archwiliedig ddal amrywiol fathau o gronfeydd wrth gefn, y gellir defnyddio rhai ohonynt i ategu gwariant ac eraill na ellir eu defnyddio, gan eu dal at ddibenion cyfrifyddu technegol yn unig. Caiff y rheini y gellir eu defnyddio ac sydd wedi’u hategu gan arian parod naill ai eu dal mewn perthynas ag ymrwymiadau neu bwysau cost penodol (cronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi) neu fel sicrwydd yn erbyn gwariant neu ddigwyddiadau annisgwyl (cronfa’r cyngor neu gronfeydd cyffredinol wrth gefn).

60 Fel y gellir gweld o Ffigur 1, mae lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan awdurdodau unedol yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2013-14, cynyddodd cronfeydd cyffredinol wrth gefn £15.2 miliwn a chynyddodd cronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi £49.0 miliwn. Mae’r cynnydd hwn yn annisgwyl i ryw raddau, gan fod cyfarwyddwyr cyllid wedi datgan ddwy flynedd yn ôl eu bod yn disgwyl i gronfeydd wrth gefn leihau’n sylweddol yn 2013-14. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd cyfuniad o faterion gan gynnwys amseru gostyngiadau i’r gyllideb, cyflawni arbedion ariannol neu gynlluniau bwriadol i gynyddu cronfeydd wrth gefn er mwyn rheoli risgiau yn y dyfodol. Caiff y sefyllfa ei hystyried ymhellach yn fy adroddiad ar sut mae llywodraeth leol yn ymateb i’r heriau ariannol y byddaf yn ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Ffigur 1 - Cronfeydd cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi: awdurdodau unedol yng Nghymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol




*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon cyhoeddedig*

61 Dylai cyrff archwiliedig bennu graddau'r cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt yn seiliedig ar eu hasesiad o angen, risgiau ac ymrwymiadau yn y dyfodol. Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yw elfen fwyaf cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ac mae'n cynnwys balansau a symiau a neilltuwyd ar gyfer costau cyflog cyfartal neu statws sengl, yswiriant, taliadau PFI, cyllid ar gyfer cynlluniau cyfalaf neu waith atgyweirio ac adnewyddu, ymhlith eitemau eraill. Mae swm y cronfeydd cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel canran o'r gwariant refeniw gros yn amrywio'n sylweddol rhwng cyrff archwiliedig.

62 Mae'r rhagolygon ariannol anodd yn golygu y bydd angen i gyrff archwiliedig gynnal arfarniadau beirniadol o'r cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt, a lle y gallant wneud hynny, gynnwys y defnydd a wneir ohonynt yn eu proses ar gyfer pennu'r gyllideb a'u cynlluniau ariannol tymor canolig. Er y gall y symiau mewn termau absoliwt ymddangos yn sylweddol, dim ond cyfran gymharol fach o'r gwariant blynyddol y maent yn ei gynrychioli a dim ond unwaith y gellir eu defnyddio. Nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw cyfredol yn gynaliadwy gan y bydd y cronfeydd wrth gefn yn dod i ben yn y pen draw a bydd y pwysau ariannol yn parhau. Felly mae angen i gyrff archwiliedig sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy sy'n ategu newidiadau ac ymdrechion parhaus i drawsnewid gwasanaethau, yn hytrach na dim ond cefnogi gwariant refeniw blynyddol ar sail barhaus.

63 Mae cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol yn destun craffu cynyddol yn gyhoeddus ac yn wleidyddol ac mae'n bwysig sicrhau bod gan awdurdodau drefniadau cadarn a thryloyw ar gyfer sefydlu a rheoli'r cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt a chyflwyno adroddiadau arnynt, yn ogystal â'u cynnwys yn eu cyfrifon blynyddol. Yn 2014, cyhoeddodd CIPFA *Fwletin 99 LAAP: Local Authority Reserves and Balances* sy'n ail-bwysleisio'r ffactorau niferus y mae angen eu hystyried fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb o ran adolygu cronfeydd wrth gefn a phennu lefel briodol yn seiliedig ar risgiau gweithredol ac ariannol. Mae'n argymell hefyd, yn ogystal â'r gofynion adrodd ariannol, y dylid pennu protocol clir ar gyfer pob cronfa wrth gefn wedi'u clustnodi gan nodi'r canlynol:

a y rheswm dros/diben y gronfa wrth gefn;

b sut a phryd y gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn;

c gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r gronfa wrth gefn; a

ch phroses ac amserlen ar gyfer adolygu'r gronfa wrth gefn er mwyn sicrhau perthnasedd a digonolrwydd parhaus.

64 Rwy'n cefnogi argymhellion Bwletin 99 LAAP a bydd archwilwyr lleol yn ystyried i ba raddau y mae awdurdodau wedi ymdrin â'r argymhellion hyn fel rhan o'u harchwiliad.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk